Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn casglu cyhoeddiadau er budd Aelodau'r Cynulliad yn bennaf, ond gallant hefyd fod o ddiddordeb i randdeiliaid allanol. Rydym yn ymgymryd â gwaith ymchwil arbenigol a diduedd sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru

Gallwch chwilio am gyhoeddiadau'n ôl '**categori** ', yn ôl **dyddiad**, neu drwy roi allweddair yn y blwch **'Term Chwilio'**. Bydd hyn yn hidlo'r canlyniadau ac yn cynnwys dim ond y rhai sy'n cyfateb i'r wybodaeth a nodwyd.

Dyma'r categorïau: **Y Cynulliad, Llywodraethu a'r Cyfansoddiad, Cyllidebau a Chyllid, yr Economi a Thrafnidiaeth, Addysg a Diwylliant, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Ewrop, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tai, Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Rhestr ddosbarthu** - os hoffech inni anfon neges atoch yn eich hysbysu am gyhoeddiadau newydd y Gwasanaeth Ymchwil yn ymwneud ag unrhyw un o'r meysydd uchod, cysylltwch â ni yn Ymchwil@Cynulliad.Cymru gan nodi'r meysydd sydd o ddiddordeb i chi. Os ydych yn ansicr pa fath o gyhoeddiad rydych am ei weld, mae crynodeb byr o'r mathau o gyhoeddiadau sydd ar gael isod.

Mae cyhoeddiadau'r gwasanaeth ymchwil yn cynnwys y canlynol:

- **Papurau ymchwil** sy'n dadansoddi materion cyfredol sy'n berthnasol i'r Cynulliad ac sy'n cynnig darlun cytbwys a all fod yn ddefnyddiol ar gyfr gwaith craffu a thrafodaethau.
- **Nodiadau ymchwil** sy'n cynnwys pynciau o ddiddordeb cyfredol mewn ffordd gryno a hygyrch.
- **Hysbysiadau Hwylus** sy'n rhoi cyflwyniadau byr i bynciau cymhleth neu dechnegol, yn aml fel rhan o gyfres o hysbysiadau am bwnc penodol;
- **Taflenni gwybodaeth i etholwyr** sy'n amlinellu'r ffynonellau cyllid a gwybodaeth sydd ar gael i sefydliadau ac etholwyr unigol.
- **Papurau crynhoi Biliau** sy'n ystyried cyd-destun polisi, prif amcanion a darpariaethau pob Bil newydd a gyflwynir yn y Cynulliad.
- **Rhestrau termau Cymraeg** sy'n rhoi cyfieithiadau Cymraeg ar gyfer termau ac ymadroddion technegol a ddefnyddir ym Miliau'r Cynulliad.
- **Materion Ewrop** Cylchlythyr a gynhyrchir gan Swyddfa'r UE a Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol y Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n ymdrin â'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru ac Ewrop.